



# Amodau Trwyddedu Hurio Preifat

**(Gweithredwyr a Cherbydau)**

This document is also available in English

## Amodau Trwyddedu Hurio Preifat

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddyletswydd statudol i weinyddu a gorfodi'r ddeddfwriaeth ym maes trwyddedu:

- Cerbydau Hacni
- Gyrwyr Cerbydau Hacni
- Cerbydau Hurio Preifat
- Gyrwyr Cerbydau Hurio Preifat
- Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 yw'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Derbyniwyd yr amodau gan:  
Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 09/03/2009  
Diwygiwyd 23/01/2012  
Diwygiwyd 11/03/2024

[trwyddedu@conwy.gov.uk](mailto:trwyddedu@conwy.gov.uk)

Diffiniadau:

Ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Mae gan "Swyddog Awdurdodedig" yr un ystyr ag yn Adran 80 o'r Ddeddf.

Ystyr "y Cyngor" yw cyngor y Fwrdeistref Sirol.

Mae gan "y Perchennog" yr un ystyr ag yn adran 80 o'r Ddeddf.

Ystyr “y Gweithredwr” yw rhywun sy’n dal trwydded i weithredu cerbydau hurio preifat a gyflwynwyd yn unol ag adran 55 o’r Ddeddf.

Mae gan “y Tacsimedr” yr un ystyr ag yn adran 80 o’r Ddeddf.

Mae gan “Cerbyd hurio preifat” yr un ystyr ag yn Adran 80 o’r Ddeddf.

Mae gan “Cerbyd Hacni” yr un ystyr ag yn Neddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

### **Gweithredwyr Cerbydau Hurio Preifat**

Rhaid i’r gweithredwr ufuddhau i holl ddarpariaethau’r Ddeddf sydd mewn grym ar hyn o bryd fel y bo’n berthnasol i weithredu cerbydau hurio preifat.

#### **COFNODION**

1.1 Mae adran 56(2) o’r Ddeddf yn mynnu bod y Gweithredwr yn cadw’r cofnodion canlynol:

- i Os ydynt yn rhai ysgrifenedig, mewn llyfr addas â thudalennau wedi’u rhifo’n olynol; neu
- ii Os ydynt yn rhai cyfrifiadurol, rhaid cadw argraffiad dyddiol neu gopi wrth gefn ar wahân.

1.2 Cyn cychwyn pob taith, bydd y Gweithredwr yn mewnbynnu, neu’n peri i rywun arall fewnbynnu, manylion canlynol pob trefniant i hurio cerbyd preifat y mae’n ei wahodd neu’n ei dderbyn, p’un a ddarparodd y Gweithredwr gerbyd hurio preifat neu beidio,

- a) Dyddiad ac amser yr archeb.
- b) Enw’r huriwr (unigolyn, cwmni neu sefydliad).
- c) Sut gwnaed yr archeb (ffôn, wyneb yn wyneb, neges destun, e-bost).
- d) Y man casglu a’r amser.

- e) Y gyrchfan.
- f) Rhif plât trwydded y cerbyd y neilltuir yr archeb iddo.
- g) Enw a rhif trwydded y gyrrwr y neilltuir yr archeb iddynt.
- h) Sylwadau, gan gynnwys manylion unrhyw is-gontract os yw'n berthnasol.

- 1.3 Rhaid i'r Gweithredwr gadw'r holl gofnodion am o leiaf 6 mis.
- 1.4 Bydd y Gweithredwr yn cadw copïau o'r holl drwyddedau cerbydau hurio preifat a gyflwynwyd gan y Cyngor ac a weithredir dan drwydded y Gweithredwr.
- 1.5 Rhaid i'r Gweithredwr gadw copi o drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat pob gyrrwr a gyflogir a'i gadw hyd oni ddaw cyflogaeth y gyrrwr i ben, a dychwelyd y copi i'r gyrrwr bryd hynny.
- 1.6 Rhaid darparu'r holl gofnodion i'w harchwilio ar gais gan swyddog awdurdodedig neu heddwlas.

## EUOGFARNAU

- 1.7 Bydd y Gweithredwr, mewn 7 niwrnod, yn datgelu i'r Cyngor, yn ysgrifenedig, manylion unrhyw euogfarn a roddir arno (neu os yw'r perchennog yn gwmni neu'n bartneriaeth, ar unrhyw un o'r cyfarwyddwyr neu bartneriaid) yn ystod cyfnod y drwydded hon.

## NEWID CYFEIRIAD

1.8 Bydd y Gweithredwr, cyn pen 7 niwrnod, yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig os yw ei gyfeiriad personol yn newid.

1.9 Bydd y Gweithredwr yn hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o unrhyw fwriad i newid lleoliad y man gweithredu o leiaf 21 o ddiwrnodau cyn i unrhyw newid ddigwydd.

## CANIATÂD CYNLLUNIO AC ATI

1.10 Ni roddir trwydded i'r Gweithredwr nes:

- 1) Bod unrhyw ganiatâd cynllunio neu ganiatâd arall sy'n ofynnol wedi'i gael gan y Cyngor a bod tystiolaeth o hynny wedi'i gyflwyno i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio.
- 2) Bod unrhyw drwydded angenrheidiol ar gyfer offer radio wedi'i rhoi gan yr Asiantaeth Cyfathrebiadau Radio.
- 3) Y bernir bod y datgeliadau o gofnodion troseddol yn foddhaol.

## GWASANAETH

1.11 Bydd y Gweithredwr yn darparu gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy i aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg resymol ac at y diben hwinnw bydd yn benodol yn sicrhau pan gaiff cerbyd hurio preifat eu hurio i fod mewn man penodol ar adeg benodol, y bydd y cerbydau hynny, oni bai fod rheswm digonol yn eu hatal neu'n peri iddynt oedi, yn cyrraedd y man penodol yn brydlon ar yr amser penodol.

## SAFLE GWEITHREDU

1.12 Bydd y Gweithredu yn cadw unrhyw safle y mae'r Gweithredwr yn ei ddarparu ac y mae gan y cyhoedd fynediad ato, boed hynny at ddiben archebu neu aros, yn lân ac wedi'i awyru a'i oleuo'n dda. Rhaid i'r Gweithredwr sicrhau bod yno ddigon o le i eistedd mewn unrhyw fan aros.

1.13 Rhaid i'r Gweithredwr sicrhau y gwaherddir defnyddio radio'r werin neu offer radio tebyg â sianel agored ar gyfer cyfathrebu gweithredol â gyrwyr cerbydau y mae'n eu gweithredu neu rhwng y gyrwyr hynny.

## CWYNION

1.14 Bydd y Gweithredwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ar unwaith ar ôl derbyn unrhyw gwynion a wneir yn uniongyrchol iddo ef ynglŷn â contract hurio neu contract hurio honedig sy'n ymwneud â'i fusnes neu'n deillio ohono, ac unrhyw gam gweithredu y mae'r Gweithredwr wedi'i gymryd neu'n bwriadu ei gymryd yn hynny o beth, neu os gwneir cwynion yn uniongyrchol i'r Cyngor, ymateb iddynt a hysbysu'r Cyngor yn yr un modd cyn pen saith niwrnod ar ôl derbyn hysbysiad o'r gŵyn.

## TALIADAU

1.15 Bydd y Gweithredwr yn sicrhau yr arddangosir copi o'r raddfa gyfredol o daliadau y mae'n eu codi ymhob cerbyd trwyddedig y mae'n eu gweithredu, mewn man lle bydd yn gwbl amlwg i'r teithwyr yn y cerbyd hwnnw.

1.16 Bydd y Gweithredwr yn sicrhau yr adneuir y raddfa daliadau a nodir yn 1.15 uchod â'r Cyngor unwaith y daw i rym.

## **Cerbydau Hurio Preifat**

Bydd y perchennog ar bob adeg yn cydymffurfio â darpariaethau Rhan II o'r Ddeddf a'r amodau a bennir wedi hyn.

### ARCHWILIO CERBYDAU

2.1 Yn amodol ar (a) hyd (m) isod, bydd y Cyngor yn ystyried rhoi trwydded cerbyd preifat ar gyfer unrhyw gar stad gweddol fach â 4 neu 5 drws, car salŵn neu stad gweddol fawr/mawr, cerbyd amlbwrpas (MPV), sbortsgerbyd bob pwrpas (SUV), bws mini ac unrhyw gerbydau cyffelyb sydd mewn cyflwr mecanyddol a ffisegol addas, beth bynnag yw ei liw. Ni fydd yn caniatáu i neb ddefnyddio Cab Llundain a ddyluniwyd yn benodol felly, cerbydau tacsî eraill a ddyluniwyd at ddiben penodol nac unrhyw gerbyd arall a fedrai beri i'r cyhoedd dybio bod y cerbyd yn gerbyd hacni.

- a. Rhaid bod o leiaf 4 o ddrysau ar y cerbyd a 4 o olwynion, oni bai'r Cyngor yn caniatáu eithriad penodol (mae'r drws ôl yn cyfrif fel un drws).
- b. Rhaid bod sedd gyrrwr pob cerbyd ar yr ochr dde, oni bai'r Cyngor yn caniatáu eithriad penodol.
- c. Rhaid i gerbydau fod â digon o le i gadw bagiau'n lân, yn ddiogel ac yn sych.
- d. Rhaid peidio â rhoi rhestlau ar doeau cerbydau.
- e. Rhaid peidio â rhoi arwyddion ar doeau cerbydau nag unrhyw arwydd arall a fedrai greu'r argraff eu bod yn gerbydau hacni (tacsîs).
- f. Rhaid i'r cerbyd fod â digon o le i gludo o leiaf 4 o deithwyr a dim mwy nag 8 o deithwyr, a'r gyrrwr hefyd.

- g. Rhaid i bob cerbyd fod yn llai na phum mlwydd oed o'r dyddiad cofrestru cyntaf a bod mewn cyflwr rhagorol yn fecanyddol a ffisegol y tu mewn a'r tu allan i fodloni amodau'r drwydded.
- Wrth gofrestru cerbydau hygyrch sy'n hŷn na phum mlwydd oed am y tro cyntaf, mae'n rhaid eu cyflwyno i'r swyddog dirprwyedig ac er mwyn cael Tystysgrif Cydymffurfiaeth mae'n rhaid i'r cerbydau fod mewn cyflwr eithriadol (gan gynnwys unrhyw rampiau, strapiau, bracedi, gosodiadau ac ati).
- h. Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a fydd yn penderfynu a yw cerbydau'n addas i'w trwyddedu fel cerbydau hurio preifat. Trwyddedir cerbydau amlbwrpas mawr heb addasu'r amodau ar gyfer y nifer o seddi a nodir yn y ddogfen V5, gan ddibynnu ar rinweddau pob achos. Ni thrwyddedir cerbydau amlbwrpas bach, fodd bynnag, ond i gludo pedwar o deithwyr a dim mwy.
- i. Rhaid i gerbydau beidio â bod â phlatiau cofrestru "Q".
- j. Wrth ymgeisio i drwyddedu cerbyd a addaswyd ers pan y'i cynhyrchwyd gyntaf neu a fewnforiwyd o dramor, rhaid darparu tystysgrif gan yr Asiantaeth Ardystio Cerbydau sy'n dangos fod y cerbyd yn addas i gludo teithwyr.
- k. Ni chaniateir i unrhyw gerbyd trwyddedig dynnu trelar oni ddarperir tystysgrif yswiriant ddilys neu nodyn yswiriant ar gyfer defnyddio'r trelar ar gyfer hurio ac ennill tâl. Rhaid arddangos rhif trwydded y cerbyd mewn lle amlwg ar gefn y trelar; rhaid i unrhyw drelar gydymffurfio â'r holl amodau sy'n berthnasol.



l. Rhaid i bob sedd teithiwr wynebu ymlaen neu am yn ôl i'r cyfeiriad teithio (ni chaniateir i unrhyw deithiwr eistedd yn wynebu i'r ochr i'r cyfeiriad teithio oni bai swyddog awdurdodedig y Cyngor yn caniatáu eithriad penodol).

m. Rhaid cael caniatâd y Cyngor i ddefnyddio camera (teledu cylch caeedig) y tu mewn i unrhyw gerbyd trwyddedig a'i ddefnyddio yn y fath fodd fel y cedwir unrhyw wybodaeth a gesglir yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rhaid arddangos arwydd y mae'r Cyngor wedi'i gymeradwyo yn y cerbyd i hysbysu teithwyr fod y system ar waith.

2.2 Cedwir y cerbyd a'i holl osodiadau ac offer ar bob adeg, pan gaiff y cerbyd ei ddefnyddio neu'i gynnig ar log, mewn cyflwr effeithlon, diogel, taclus a glân, a chydymffurfir â'r holl ofynion statudol perthnasol.

2.3 Ni wneir unrhyw newidiadau sylweddol yn nodweddion y cerbyd, ei ddyluniad, ei gyflwr na'i olwg ar unrhyw adeg tra bod y drwydded mewn grym heb gymeradwyaeth y Cyngor.

2.4 Arddangosir y plât trwydded a'r arwyddion drws sy'n dynodi bod y cerbyd yn gerbyd hurio preifat ar y cerbyd ar bob adeg tra bod y cerbyd wedi'i drwyddedu fel cerbyd hurio preifat (ac eithrio'r fath sefyllfa a nodir yn Adran 75 o'r Ddeddf).

2.5 Gosodir y plât trwydded allanol yn sownd ar du ôl y cerbyd, yr un uchder â'r bympar neu'n uwch ac mor llorweddol â phosib, a'i osod yn y fath fodd fel y gall swyddog awdurdodedig y Cyngor neu heddwys ei dynnu'n rhydd.

2.6 Glynir un arwydd drws ar ben uchaf pob panel drws blaen ar y cerbyd.

2.7 Gellir gosod enw'r cwmni, y geiriau 'hurio preifat/private hire' ac un rhif ffôn, y mae'n rhaid i Weithredwr y Cerbyd ei ddefnyddio,

ar y bŵt a'r naill ochr o gefn y cerbyd islaw'r ffenestri, ar draul deiliad y drwydded, ar yr amod:

- i) Mai enw'r cwmni yw'r un y mae'r Gweithredwr yn ei ddefnyddio ac wedi hysbysu'r Cyngor ohono.
- ii) Ni fydd y Cyngor yn caniatáu unrhyw luniau, eiconau, graffeg, arwyddluniau ac ati a allai greu'r argraff bod y cerbyd yn gerbyd hacni (taksi).

2.8 Rhaid i gerbydau beidio ag arddangos y geiriau "taksi/taxi", "cab", "ar log/for hire" neu unrhyw air neu eiriau eraill unrhyw le ar y cerbyd neu yn y cerbyd mewn ffordd a allai, ym marn y Cyngor, beri i'r cyhoedd feddwl bod y cerbyd yn gerbyd hacni.

2.9 Rhaid peidio â gosod y plât trwydded na'r arwyddion drws ar unrhyw gerbyd heblaw'r un a nodwyd ar y drwydded gyfredol. Bydd yr offer hwn yn dal yn eiddo i'r Cyngor a rhaid ei ildio ar unwaith pan ddaw'r drwydded i ben, neu os gaiff y drwydded ei hatal neu'i dirymu.

2.10 Bydd pob cerbyd trwyddedig wedi'i glustogi, ei ffitio a'i gynnal a'i gadw'n ddigonol fel bod teithwyr yn gyfforddus a diogel a darparu'r hyn a ganlyn, ni waeth mor gyffredinol ydyw:

- i) Dull digonol o gyfathrebu rhwng teithwyr yn y cerbyd a'r gyrrwr, os oes lle ar wahân i deithwyr yn y cerbyd.
- ii) Gorchudd to sy'n dal dŵr.
- iii) Dull cyfleus o agor a chau o leiaf un ffenestr ar bob ochr o'r man eistedd i deithwyr.
- iv) Seddi glân â chlustogau digonol ar gyfer y nifer o deithwyr a bennir yn nhrwydded y cerbyd.
- v) Llawr â charped neu orchudd pwrpasol arno.

vi) Rhaid gosod diffoddwr tân powdwr sych digonol (0.8 – 1.5 cilogram), wedi'i ardystio neu'i brofi, yn ddiogel o'r golwg a rhoi hysbysiad amlwg y tu mewn i'r cerbyd i ddangos ble gellir dod o hyd iddo mewn argyfwng.

viii) Gosodir pecyn cymorth cyntaf yn ddiogel o'r golwg a rhoi hysbysiad amlwg y tu mewn i'r cerbyd i ddangos ble gellir dod o hyd iddo mewn argyfwng (nid yw gyrrwyr cerbydau hurio preifat (a hacni) dan unrhyw rwymedigaeth i roi triniaeth cymorth cyntaf i neb), ac er nad oes rhestr safonol o'r eitemau y dylid eu rhoi mewn blwch cymorth cyntaf, dylech asesu'r anghenion ac fel rheol, os nad oes unrhyw risgiau arbennig, dylid cadw'r eitemau cymorth cyntaf canlynol yn y cerbyd:

Taflen ynglŷn â chymorth cyntaf.

Un pâr o fenig untro.

20 o rwymynnau gludiog di-haint wedi'u lapio'n unigol (o amryw feintiau).

Dau o badiau llygad di-haint.

Pedwar o rwymynnau trionglog wedi'u lapio'n unigol (yn ddelfrydol yn ddi-haint).

Chwech o binnau cau.

Chwech o rwymynnau anfeddyginiaethol canolig (12cm x 12cm).

Dau o rwymynnau anfeddyginiaethol mawr (18cm x 18cm).

Ni ddylid cadw unrhyw dabledi na moddion yn y Blwch Cymorth Cyntaf.

#### RHAID AILGYFLENWI POB EITEM AR UNWAITH AR ÔL EI DEFNYDDIO.

Rhaid cadw'r holl eitemau mewn blwch cymeradwy a'u cadw mewn cyflwr da bob amser.

2.11 Rhaid bod gwregysau diogelwch i deithwyr wedi'u gosod a'u cadw yn yr holl gerbydau ynghyd â nodweddion eraill sy'n ofynnol dan unrhyw Ddeddf neu Reoliad a ddaw i rym o bryd i'w gilydd.

2.12 Ni arddangosir unrhyw arwyddion o unrhyw fath, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, arwyddluniau neu ddyluniad o unrhyw fath yn y cerbyd, arno neu ohono ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol dan unrhyw ddarpariaethau statudol, gan gynnwys deddfau neu amodau. Dylid nodi y caniateir arddangos hysbysebion ar gerbyd trwyddedig ond bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r amodau perthnasol a bod yn rhaid cael caniatâd gan y Cyngor i'w harddangos.

2.13 Ni fydd 2.12 uchod yn berthnasol i:

- a) Unrhyw arwydd ar dacsimedr nad yw'n weladwy ond y tu mewn i'r cerbyd, neu
- b) Cerdyn y mae'r gyrrwr yn ei ddal yn ei law a'i arddangos yn y cerbyd, arno neu ohono pan mae'n llonydd, ar yr amod:
  - i) Nad yw'r fath gerdyn yn cynnwys geiriau neu rifau heblaw enwau gweithredwr trwyddedig y cerbyd neu'r enw a ddefnyddir ar gyfer busnes ac, yn y naill achos neu'r llall, enw teithiwr neu deithwyr a gludir yn y cerbyd, ac
  - ii) Os yw'r gweithredwr trwyddedig yn codi tâl am y teithiau yn unol â'r raddfa daliadau (fel yn amodau trwydded Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat), yr arddangosir copi o'r raddfa honno yn y cerbyd er gwybodaeth i'r teithwyr ar ffurf sydd eisoes wedi'i gyflwyno i'r Cyngor a'i gymeradwyo ganddo.

2.14 Ni fydd Gweithredwr Cerbyd Hurio Preifat, ei berchennog na'i yrrwr yn defnyddio unrhyw offer radio ar gyfer cyfathrebu gweithredol rhwng y Gweithredwr a'r Gyrrwr, neu rhwng gyrrwyr cerbydau hurio preifat eraill mewn unrhyw gerbyd, nac yn peri neu ganiatáu i neb arall wneud, ac eithrio offer â sianel gaeedig sydd wedi'i drwyddedu'n llawn.

2.15 Gwaherddir defnyddio radio'r werin, offer sganio seinamleddau radio neu unrhyw offer radio cyffelyb â sianel agored at ddibenion cyfathrebu gweithredol. Nid yw hynny, fodd bynnag, yn nacáu defnyddio offer radio'r werin at ddibenion personol, ar yr amod na ddefnyddir yr offer wrth gludo teithwyr ac nad yw'n peri aflonyddwch i bobl eraill sydd wedi'u trwyddedu i ddefnyddio offer radio cyffelyb.

2.16 Bydd deiliad y drwydded yn hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o unrhyw newid cyfeiriad yn ystod cyfnod y drwydded, cyn pen saith niwrnod wedi i'r newid ddigwydd.

- 2.17 Bydd deiliad y drwydded yn datgelu i'r Cyngor yn ysgrifenedig fanylion unrhyw euogfarn (troseddol/modurol) a roddir ar y gyrrwr yn ystod cyfnod y drwydded.
- 2.18 Bydd yn ofynnol i'r holl gerbydau fynd drwy brawf cydymffurfiaeth ac allyriadau bob 6 mis mewn gorsaf brofi y mae'r Cyngor yn ei phennu (gan gynnwys profi unrhyw lifftau mecanyddol, niwmatig a hydrolog os oes angen, neu rampiau ac unrhyw offer arall sydd ei angen i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd).
- 2.19 Pan fydd 6 mis wedi mynd heibio ers y prawf cydymffurfiaeth diwethaf, archwilir yr holl gerbydau sy'n fwy na 5 mlynedd oed o'r dyddiad y'u cofrestrwyd gyntaf pan gynhelir unrhyw brawf cydymffurfiaeth dilynol yn yr Orsaf Brofi y mae'r Cyngor wedi'i hawdurdodi, er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr eithriadol y tu mewn a'r tu allan.
- 2.20 Bydd deiliad y drwydded yn hysbysu'r Swyddog Trwyddedu'n ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a dim mwy na 72 awr ar ôl y digwyddiad, o unrhyw ddamwain y bu'r cerbyd ynddi sydd wedi peri difrod sylweddol sy'n effeithio ar ddiogelwch y cerbyd, ei berfformiad neu'i olwg neu gysur neu gyfleustra'r teithwyr a gludir yn y cerbyd.
- 2.21 Caiff y drwydded cerbyd hurio preifat ei hatal os yw'r Cyngor o'r farn, wedi derbyn hysbysiad yn unol â 2.20 uchod, bod y cerbyd yn torri unrhyw amod sy'n ofynnol dan y drwydded neu fod angen ei brofi eto. Bydd y gweithredwr yn mynd â'r cerbyd i'w brofi mewn gorsaf brofi ddynodedig a chyflwyno tystysgrif cydymffurfiaeth i'w harchwilio cyn y gellir adfer y drwydded.
- 2.22 Gall y Cyngor fynnu y dychwelir platiau trwydded ar unwaith.
- 2.23 Os oes tacsimedr wedi'i osod yn y cerbyd hurio preifat, bydd y tacsimedr hwnnw'n bodloni'r amodau canlynol ac ni chaniateir ei ddefnyddio ond wrth gydymffurfio â'r amodau hynny:
- a) Ni arddangosir unrhyw arwydd neu faner, boed wedi'i oleuo neu beidio, ar y tacsimedr neu rywle arall y gellir ei weld o'r tu allan

i'r cerbyd, sy'n cynnwys y geiriau "ar log/for hire" neu unrhyw eiriad neu awgrym arall sy'n dynodi bod y cerbyd yn gerbyd hacni sydd ar gael i'w hurio yn y fan a'r lle.

- b) Gosodir swits ar y tacsimetr neu ddyfais arall sy'n gweithio'r tacsimetr ar sail y tariff priodol sy'n peri i'r gair 'HURIWYD/HIRED' neu 'TÂL/FARE' ymddangos ar wyneb y tacsimetr.
- c) Dylai fod modd cloi'r cyfryw swits neu ddyfais arall yn y fath ffordd fel nad yw peirianwaith y tacsimetr yn troi a bod dim tâl yn cael ei gofnodi ar wyneb y tacsimetr.
- d) Pan mae peirianwaith y tacsimetr yn troi fe gofnodir ar wyneb y tacsimetr mewn ffigurau clir a darllenadwy heb unrhyw amwysedd dâl nad yw'n fwy na'r gyfradd honno y mae Gweithredwr y cerbyd wedi hysbysu'r Cyngor ohoni.
- e) Bydd y tacsimetr wedi'i wneud yn y fath fodd fel y gall gofnodi tariffau eraill, os yw'r Gweithredwr wedi hysbysu'r cyngor o dariff uwch ar gyfer teithiau'n hwyr yn y nos neu archebion eraill.
- f) Bydd y gair "tâl/fare" wedi'i argraffu ar wyneb y tacsimetr mewn llythrennau bras fel ei bod yn amlwg ei fod yn berthnasol i'r swm a gofnodir arno.
- g) Gosodir y tacsimetr mewn man lle bydd pob llythyren a ffigur ar ei wyneb yn amlwg ar bob adeg i rywun a gludir yn y cerbyd ac at y diben hwnnw, bydd modd goleuo'r llythrennau a'r ffigurau'n addas yn ystod unrhyw gyfnod hurio.
- h) Gosodir y tacsimetr a'i holl osodiadau ar y cerbyd â seliau neu gyfrwng arall yn y fath fodd fel na fydd yn bosib i neb ymyrryd â hwy heb dorri'r sêl neu gyfrwng arall, ei ddifrodi neu gael gwared arno am byth.

2.24 Mae trwydded y cerbyd hurio preifat yn dal yn perthyn i'r unigolyn neu unigolion a nodir ar y drwydded. Ni chaniateir is-osod y drwydded na'i rhoi ar log i neb arall heb fod y Cyngor yn trosglwyddo'r drwydded yn y dull priodol.

- 2.25 Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau y cyflwynir polisiâu yswiriant a thystysgrifau cydymffurfiaeth a adnewyddir i'r Swyddog Trwyddedu, ar eu ffurfiau gwreiddiol, boed hynny cyn iddynt ddod i ben neu pan mae hynny'n digwydd.
- 2.26 Bydd methu â darparu'r cyfryw ddogfennau'n arwain at atal y drwydded/trwyddedau ar unwaith.
- 2.27 Rhaid i ddeiliaid trwyddedau cerbydau hurio preifat a'u gyrwyr beidio â gwrthod cludo Ci Cymorth, Ci Tywys neu Gi Clywed sy'n cyd-deithio â'r huriwr neu unrhyw deithiwr arall, heb fod esgus rhesymol dros wneud hynny. Rhaid cludo cŵn ar lawr y cerbyd. Bernir bod esgus rhesymol yn cynnwys unrhyw gyflwr meddygol sydd gan yrrwr trwyddedig y byddai cludo ci yn y cerbyd yn ei waethygu.
- 2.28 Amodau Ychwanegol ar gyfer trwyddedu mathau penodol o gerbydau (fel limwsîn, injan dân neu gerbyd arbenigol). Yn achos cerbydau a lle i 8 o deithwyr neu lai, mae'n rhaid ystyried ei addasrwydd ar gyfer y ffordd fawr a defnyddio rheoliadau 46 a 46 (Offerynnau Statudol 1986 a 1078) a Deddf Traffig Ffyrdd 1988.
- a) Rhaid i'r cerbyd fodloni prawf unigol o'i ddyluniad a'i wneuthuriad mewn gorsaf brofi VOSA. Rhaid cyflwyno'r dystysgrif cymeradwyo neu gydymffurfiaeth ynghyd â thystysgrif cofrestru (V5c) i'r adran drwyddedu.
- b) Ni chaniateir i neb sy'n gweithredu'r cerbyd wisgo gwisg a all beri i'r teithwyr neu aelodau o'r cyhoedd gredu eu bod yn aelod o unrhyw wasanaethau brys.
- c) Rhaid bod y gyrrwr yn meddu ar y drwydded yrru briodol i yrru'r cerbyd.
- d) Rhaid i'r holl oleuadau, arwyddion ac offer ategol beidio â rhoi'r argraff fod y cerbyd yn gerbyd gwasanaethau brys.

- e) Ni chaniateir i neb iau na 15 oed eistedd ar sedd sy'n wynebu i'r ochr.
- f) Rhaid i'r holl deiars gydymffurfio ag argymhellion gwneuthurwr y cerbyd.
- g) Rhaid i'r holl gerbydau fodloni prawf cydymffurfiaeth penodol a wneir yng ngorsaf brofi'r Cyngor.
- h) Cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth berthnasol yng nghyswllt gwerthu ac yfed alcohol yn y cerbyd.
- i) Rhaid i'r holl adloniant a ddarperir yn y cerbyd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a bod y Cyngor wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig ar ei gyfer.
- j) Rhaid i'r gweithredwr ddarparu cymorth corfforol i sicrhau bod teithwyr yn ddiogel wrth ddod i mewn i'r cerbyd a mynd allan ohono.
- k) Rhaid hysbysebu unrhyw gyfyngiad ar grwpiau penodol o deithwyr yn glir yn y deunydd hyrwyddo a sôn amdano adeg yr archeb.
- l) Gellir pennu amodau arbennig eraill yn ôl yr angen.